De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Police and Crime Commissioner
South Wales

# COFNOD PENDERFYNIADAU COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU DE CYMRU

## Mai 2024 i Ionawr 2025

| DYDDIAD | CAIS AM BENDERFYNIAD | GWYBODAETH ATEGOL | CYMERADWYWYD/GWRTHODWYD |
|---|---|---|---|
| 10/01/25 | Eiriolwr Dioddefwyr Ffordd Annibynnol | Cais i ariannu Eiriolwr Dioddefwyr Ffordd Annibynnol er mwyn darparu cymorth i'r rhai sydd wedi cael eu heffeithio neu sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i ddamweiniau traffig ffyrdd. | Cymeradwywyd |
| 07/01/25 | Cydlynydd Prosiect ADDER | Cais i ymestyn rôl Cydlynydd Prosiect ADDER am dri mis hyd at 30 Mehefin 2025 er mwyn sicrhau bod y y prosiect a'r holl weithgareddau yn cael eu cwblhau. | Cymeradwywyd |
| 06/11/24 | Ymgynghoriad Adnoddau Dynol | Bydd Cynllun yr Heddlu a Throseddu newydd yn arwain at newid ym mlaenoriaethau a gwaith Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a bydd angen i'r swyddfa ailalinio er mwyn sicrhau tryloywder a diogelwch i gefnogi llesiant cyflogeion. Caiff y newidiadau hyn eu gwneud yn unol â chyfraith cyflogaeth a phrosesau Adnoddau Dynol cywir. Mae Cymorth Arbenigol Adnoddau Dynol wedi cael ei gomisiynu. | Cymeradwywyd |
| 06/11/24 | Cynnig Cyllid i Ddioddefwyr 2025/26 | Datgomisiynu'r cynnig ac ailbwrpasu'r arian – Gwasanaethau Dioddefwyr. | Cymeradwywyd |



| | | | |
|---|---|---|---|
| 19/09/24 | Caffael Ravens Court | Prynu Ravens Court am £1.85M ac yna feddiannu'r adeilad gyda thimau prosiect amrywiol sy'n cynnal presenoldeb yr heddlu yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr. | Cymeradwywyd |
| 14/09/24 | Cais am Gyllideb Ymgysylltu a Chyfathrebu | Cais gan y Rhaglen Waith Ymgysylltu a Chyfathrebu yn ceisio cyllideb o £5k er mwyn ehangu ei chynnwys fideograffeg a ffotograffeg gyda'r nod o gynyddu amlygiad gweithgareddau'r Comisiynydd fel agwedd allweddol ar godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad y cyhoedd. | Cymeradwywyd |
| 19/08/24 | PCC Security | Dyletswydd Gofal er mwyn sicrhau bod mesurau diogelwch ar waith ar gyfer y Comisiynydd. | Cymeradwywyd |
| 16/08/24 | Hyfforddiant Seiber Diogelu Data | Opsiwn i danysgrifio i borth ar-lein fel swyddfa neu ar sail flynyddol ar gyfer mynediad at y modiwlau hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn, wedi'u cynnwys fel rhan o broses sefydlu, fel nodyn atgoffa blynyddol, ac mewn ymateb i achosion o dorri diogelwch data neu ddigwyddiad a fu bron â digwydd. Cynnig tanysgrifiad sefydlog am dair blynedd er mwyn i staff gwblhau Hyfforddiant Diogelu Data. | Cymeradwywyd |
| 13/08/24 | Cogent Content Ltd | Comisiynu asiantaeth annibynnol i gwblhau ymarfer mapio rhanddeiliad i'w gwblhau ar y cyd â'r tîm Rhaglen am gost o £11,550. | Cymeradwywyd |
| 11/07/24 | Lynn Consultancy | Comisiynu asiantaeth ymgynghori i helpu gyda'r gwaith o lunio Cynllun yr Heddlu a Throseddu newydd ar gyfer 2025 yn dilyn ethol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu newydd yn ddiweddar. Cost y dull gweithredu tri cham £29,992. | Cymeradwywyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28/06/24 | Alldro Dros Dro a Symudiadau Arfaethedig mewn Cronfeydd wrth Gefn 2023-24 | Cymeradwyo'r symudiadau cronfeydd wrth gefn diwedd blwyddyn a'r sefyllfa alldro yn amodol ar adolygiad archwiliad allanol. | Cymeradwywyd |
| 09/04/24 | Dulliau Osgoi Gwahaniaethu ar Sail Hil wrth Ddargyfeirio Cyn Achosion Llys – Cam 2 | Er mwyn parhau i gefnogi Cynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, mae angen gwneud gwaith pellach ar ffurf prosiect Cam 2 ac mae angen £12,500 o'r gyllideb. | Cymeradwywyd |